


## PRICHARD, RICHARD (1811 - 1882), gweinidog Wesleiaidd



**Enw:** Richard Prichard  
**Dyddiad geni:** 1811  
**Dyddiad marw:** 1882  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog Wesleiaidd  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Griffith Thomas Roberts

Ganwyd ym Mangor, 31 Mawrth 1811. Ymunodd â'r seiat Wesleiaidd yn 1823, dechreuodd bregethu yn 1827, a daeth cryn alw am ei wasanaeth yn fuan. Bu'n ' was cylchdaith ' ym Machynlleth (1829-31), a Llandysul (1831-2); derbyniwyd yn ymgeisydd am y weinidogaeth yn 1830 a dechreuodd deithio yn 1832. Gwasnaethodd gylchdeithiau Caerdydd (1832-3), Dolgellau (1834-5, 1845-7), Caernarfon (1836, 1866-8), Llanrwst ac Abergele (1837-9), Llanfaircaereinion (1840-2), yr Wyddgrug (1843-4, 1858-60), Llanfyllin (1848-50), Biwmares (1851), Lerpwl (1852-4, 1863-5), Rhuthyn (1855-7), Coedpoeth (1861-2), y Rhyl (1869-71), a Chonwy (1872). Wedi ymneilltuo yn 1873, ymsefydlodd yn y Rhyl, lle y bu farw 12 Mai 1882. Bu'n ysgrifennydd cronfa fenthyciol talaith Wesleiaidd Gogledd Cymru o'i chychwyniad (1855) hyd ei ymneilltued. Yr oedd yn bregethwr effeithiol, yn fedrus ynglŷn â chodi capelau a chlirio eu dyledion, ac yn awdur amryw lyfrau defnyddiol yn eu cyfnod. Bu ei *Holwyddorydd Duwinyddol*, 1857, yn boblogaidd am flynyddoedd. Golygodd *Y Winllan*.

### Awdur

**Y Parchedig Griffith Thomas Roberts**, (1887 - 1977)

### Ffynonellau

Cofiant yn *Yr Eurgrawn Wesleyaidd*, 1886-7, passim

rhestr o'i weithiau yn T. Jones-Humphreys, *Methodistiaeth Wesleyaidd Cymreig sef trem ar ei sefydliad, ei gwaith, a'i llwyddiant yn ystod y ganrif gyntaf o'i hanes* (Treffynnon 1900), 171 sqq

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Richard Prichard \(gweinidog Wesleiaidd\)](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20738146](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>



Roberts, G. T., (1953). PRICHARD, RICHARD (1811 - 1882), gweinidog Wesleiaidd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PRIC-RIC-1811>



Preifatrwydd a Chwciis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

The image shows a book cover with a dark red background. On the left, there is a white rectangular area containing the logos for LGC (Llyfrgell Gwladol Cymru) and NLW (Llyfrgell y Nation) in red. To the right of this area, the text 'LLYFRGELL' and 'THE NATION' is written in large, white, bold, sans-serif capital letters. At the bottom left of the cover, there are three circular logos: the Welsh coat of arms, the NLW logo, and the LGC logo. Below these logos is a small white box with the text 'Noddi gan Lywodraeth Cymru' and 'Supported by Welsh Government'.